**Rhif: WG50696**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

## Safonau Marchnata Wyau Maes a Chig Dofednod

### Ymgynghoriad ar y cyfnod rhanddirymu mewn deddfwriaeth safonau marchnata wyau a chig dofednod Cymru

Hydref 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol 978-1-83625-842-1

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cyfnod rhanddirymu mewn deddfwriaeth safonau marchnata wyau a chig dofednod Cymru.

## Angen gweithredu

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Bwyd
Llywodraeth Cymru
Tŷ Ladywell
Stryd y Parc
Y Drenewydd
SY16 1JB

E-bost: Consultation.EggAndPoultrymeat@gov.wales

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg: hyperlink

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: hyperlink

# Cynnwys


Cynnwys ..... 3

Cyflwyniad ..... 5

Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 5

Ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 6

Wyau ..... 6

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y terfyn amser o 16 wythnos ar y cyfnod rhanddirymiad yng Nghymru? ..... 6

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi'n well cael dull gweithredu yng Nghymru sy'n gyson â'r polisi mewn gwledydd eraill fel Lloegr a'r Alban? ..... 7

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai effaith y newidiadau arfaethedig i Reoliad 598/2008 (marchnata wyau) ddrysu defnyddwyr? ..... 8

Cwestiwn 4: Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid lliniaru'r risg o ddryswch? ..... 9

Cwestiwn 5: I ba raddau y byddai'n effeithio arnoch pe na fyddai diwygio'r terfyn amser o 16 wythnos ar y rhanddirymiad labelu yn cael ei fabwysiadu o fewn deddfwriaeth ym mhob un o wledydd Prydain Fawr (Cymru, Lloegr, yr Alban)? A allwch ddisgrifio eich gweithrediadau ac i ba raddau y maent yn digwydd naill ai'n gyfan gwbl yng Nghymru neu ar draws dwy neu fwy o wledydd Prydain? ..... 10

Cwestiwn 6: Beth fyddai'r ffordd orau o hysbysu pobl am newid i arferion labelu wyau maes? 11

Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar hysbysu'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb? ..... 12

Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newid deddfwriaethol, os o gwbl? ..... 12

Cig dofednod ..... 14

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gael gwared ar y terfyn amser o 12 wythnos ar y cyfnod rhanddirymu? ..... 14

Cwestiwn 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai effaith y diwygiad arfaethedig hwn i Reoliad 543/2008 (marchnata dofednod) ddrysu neu gamarwain defnyddwyr? ..... 15

Cwestiwn 11: Os ydych yn credu y gallai'r diwygiad hwn i Reoliad Dofednod 543/2008 (marchnata dofednod) ddrysu neu gamarwain defnyddwyr, a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid lliniaru unrhyw risgiau canfyddedig? ..... 15

Cwestiwn 12: I ba raddau y byddai'n effeithio arnoch pe na bai diwygio'r terfyn amser o 12 wythnos ar y rhanddirymiad labelu yn cael ei fabwysiadu o fewn deddfwriaeth ym mhob un o wledydd Prydain Fawr (Cymru, Lloegr, yr Alban)? A allwch ddisgrifio eich gweithrediadau ac i ba raddau y maent yn digwydd naill ai'n gyfan gwbl yng Nghymru neu ar draws dwy neu fwy o wledydd Prydain? ..... 16

Cwestiwn 13: Beth fyddai'r ffordd orau o hysbysu pobl am newid i arferion labelu dofednod? . 17

Cwestiwn 14: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar hysbysu'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb? ..... 18

Cwestiwn 15: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newid deddfwriaethol, os o gwbl?............18
Cwestiwn 19: Dywedwch wrthym fel pwy rydych chi'n ymateb, gan ddewis o'r canlynol. .........20
Cwestiwn 21: Dewiswch gwmpas daearyddol eich sefydliad neu'r ardal y mae eich ymateb yn gysylltiedig â hi o'r canlynol (ticiwch cymaint ag sy'n berthnasol. ..............................................20
**Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf ............................................................ 21**
**Atodiad A: Arolygon neu Ymchwil Annibynnol.................................................. 21**

## Cyflwyniad

1. Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad er mwyn ceisio barn ynghylch a ddylid gwneud newidiadau i'r gyfraith ynglŷn â marchnata wyau maes a chig dofednod maes mewn perthynas â Chymru.

2. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid dileu cyfnodau rhanddirymu y gellir eu rhoi ar gyfer labelu cynnyrch pan wneir gorchmynion cadw dan do gorfodol mewn ymatebion i achosion o ffliw adar. Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 ("Rheoliad 589/2008") yn nodi rheolau manwl ynglŷn â safonau marchnata ar gyfer wyau ac yn darparu cyfnod rhanddirymu o 16 wythnos y gellir parhau i werthu wyau heb newidiadau i labeli na phecynwaith wyau maes o'i fewn Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 ("Rheoliad 543/2008") yn pennu safonau marchnata ar gyfer cig dofednod, gan ddarparu terfyn amser o 12 wythnos pryd y gellir parhau i werthu cig dofednod maes heb newidiadau i labeli na phecynwaith.

3. Byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn golygu y gallai wyau maes a chig dofednod maes gael eu marchnata fel y cyfryw tra byddai mesurau cadw dan do gorfodol mewn grym.

4. Byddai diwygio Rheoliadau 589/2008 a 543/2008 yn effeithio ar weithrediadau busnes cynhyrchwyr wyau, cynhyrchwyr dofednod, proseswyr, manwerthwyr, mewnforwyr ac allforwyr, yn ogystal â'r wybodaeth ar labeli i ddefnyddwyr wrth brynu cynnyrch.

## Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

5. Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o gyfnod ymgynghori o chwe wythnos rhwng 29 Gorffennaf a 9  Medi 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu Saesneg.

6. Cyflwynwyd cyfanswm o 40 o ymatebion erbyn y terfyn amser gan y canlynol:

| Sector | Ymatebion |
|---|---|
| Cynhyrchydd wyau | 16 |
| Corff Masnach y Sector/Sefydliad Aelodaeth | 8 |
| Unigolyn | 6 |
| Arall | 6 |
| Cynhyrchydd Dofednod | 5 |
| Prosesydd/Gwneuthurwr Bwyd | 4 |

| | |
|---|---|
| Manwerthwr | 2 |
| Mewnforiwr/Allforiwr Dofednod | 1 |

7. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn o'r rhestr pan ofynnwyd iddynt nodi fel pwy roeddent yn ymateb. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr (heblaw'r rhai a oedd am aros yn ddienw) yn **Atodiad A**.

8. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond yn hytrach crynhoi a nodi'r themâu allweddol. Gofynnodd yr ymgynghoriad 21 o gwestiynau a chrynhoir yr ymatebion i bob un isod.

9. Nid atebodd rhai ymatebwyr bob cwestiwn. Mae pob canran yn seiliedig ar safbwyntiau a ddarparwyd mewn perthynas â'r cwestiwn perthnasol, yn hytrach na chyfanswm yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gyffredinol ac mae wedi'i dalgrynnu. Lle y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn mewn cwestiwn, efallai y gwelwch nad yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100 y cant. Mewn cwestiynau lle mae'r ymatebwyr wedi dewis yr opsiwn ‘Arall’ er mwyn rhoi sylwadau ac wedi nodi'n benodol eu bod yn cytuno/anghytuno â'r cwestiwn, mae eu hymateb wedi'i gynnwys wrth gyfrifo'r ganran.

10. Cafwyd ymatebion o bob rhan o'r DU. Darparodd 38 o'r ymatebwyr wybodaeth am eu lleoliad/ ardal weithredu. Dangosodd hyn fod 34 (90%) yng Nghymru, 16 (42%) yn Lloegr, 7 (18%) yn yr Alban, a 6 (16%) yng Ngogledd Iwerddon a bod 10 (26%) yn gweithredu'n ehangach yn y Deyrnas Unedig.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Wyau

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y terfyn amser o 16 wythnos ar y cyfnod rhanddirymiad yng Nghymru?**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 32 | 89% |
| **Anghytuno** | 4 | 11% |
| **Ddim yn gwybod** | 0 | 0% |

11. O'r 36 o ymatebion a gafwyd, roedd 89% yn cytuno y dylid dileu'r terfyn amser o 16 wythnos ar y cyfnod rhanddirymu yng Nghymru ar gyfer wyau maes ac roedd 11% yn anghytuno.

12. O'r wyth ymatebydd a roddodd sylwadau, nododd pump yn benodol eu bod yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, gyda dau yn nodi eu bod yn cytuno â'r cafeatau a ddisgrifir yn y cwestiynau dilynol. Lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddwyr yn cael eu hysbysu neu fod â ffydd mewn

cynhyrchion wedi'u labelu'n rhai ‘maes’ neu gwnaethant sylwadau ar hynny, a nododd un y byddai'r newid yn ei gwneud yn bosibl i gynhyrchion bwyd barhau i gael eu cyflenwi ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel.

13. Cymysg fu ymateb unigolion a sefydliadau elusennol anifeiliaid gyda rhai yn cytuno a rhai yn anghytuno â'r cynnig i ddileu'r terfyn amser o 16 wythnos, tra roedd sefydliadau aelodaeth a chyrff masnach y sector i gyd yn croesawu'r newid arfaethedig. Cyfeiriodd dau ohonynt at y maint y mae wyau maes yn cyfrif amdano yn y sector wyau yng Nghymru (90% o'r wyau a gynhyrchir yng Nghymru) a'r DU ac roeddent yn awyddus i sicrhau na fyddai busnesau yng Nghymru yn cael eu cosbi'n annheg na bod o dan anfantais.

14. Cyfeiriodd pump ymateb at les anifeiliaid, gyda rhai cafeatau, tra bod mesurau cadw dan do gorfodol mewn grym, y dylid cynnal yr holl amodau a safonau eraill sy'n ymwneud â ‘cynnyrch maes’ a, phan fyddai'r cyfnod rhanddirymu wedi dod i ben, y dylai'r holl safonau maes ddychwelyd.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi'n well cael dull gweithredu yng Nghymru sy'n gyson â'r polisi mewn gwledydd eraill fel Lloegr a'r Alban?**

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 94% |
| Anghytuno | 2 | 6% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |

15. O'r 34 o ymatebion, nododd 94% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gael dull gweithredu yng Nghymru sy'n gyson â'r polisi mewn gwledydd eraill fel Lloegr a'r Alban.

16. O'r wyth sylw a gyflwynwyd, nododd saith fod angen dull gweithredu cyson, gydag un eithriad yn nodi mai mater datganoledig yw'r penderfyniad ac y dylai gael ei wneud yng nghyd-destun lleihau nifer yr achosion o ffliw adar yng Nghymru. Nododd un arall y dylid ymateb i achosion o ffliw adar mewn modd wedi'i deilwra ac yn gymesur.

17. Cyfeiriodd y mwyafrif o'r ymatebwyr at effaith hirdymor ar hyder cynhyrchwyr ac annhegwch pe bai'r ddeddfwriaeth bresennol yn parhau. Nododd llawer mai cynhyrchwyr maes sy'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â cholli statws maes premiwm os bydd angen iddynt ail-labelu wyau yn wyau ysgubor ar ôl i'r cyfnod presennol o 16 wythnos ddod i ben. Cydnabu eraill y baich gweinyddol costus y byddai cynhyrchwyr a chyflenwyr yn ei wynebu pe bai'r diwydiant yn gorfod rheoli a rhoi atebion ar waith pe na bai Cymru yn gyson â Phrydain Fawr.

18. Nododd pedwar ymateb heriau i'r diwydiant wyau pe bai arferion labelu gwahanol i'w cael yn y DU, gan gydnabod bod llawer o fusnesau wyau yn

gweithredu ar draws y ffiniau tra bod cwmnïau pacio yn cael wyau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Nododd ymatebwyr y byddai arferion labelu cyson yn osgoi dryswch, yn lleihau tarfu diangen yn y gadwyn cyflenwi wyau ac yn sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn gweithredu o dan yr amodau â chynhyrchwyr wyau yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Ewrop.

19. Roedd safbwyntiau ar fanteision dull gweithredu cyson hefyd yn cynnwys parhau i allu cystadlu ag wyau a fewnforir a all gael eu cynhyrchu i safonau gwahanol neu o dan fesurau lles anifeiliaid gwahanol.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai effaith y newidiadau arfaethedig i Reoliad 598/2008 (marchnata wyau) ddrysu defnyddwyr?**

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 8 | 27% |
| Anghytuno | 20 | 67% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 7% |

20. O'r 30 o ymatebion a gafwyd, roedd 27% o'r farn y gallai'r newid arfaethedig ddrysu defnyddwyr ond roedd 67% o'r farn na fyddai'n gwneud hynny.

21. Cafwyd 10 sylw, gyda phump yn awgrymu y gellid lliniaru'r risg o ddrysu defnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth yn y man gwerthu.

22. Nododd tri nad oedd unrhyw dystiolaeth y byddai hyn yn peri dryswch a gwnaethant gyfeirio at yr Arolwg Annibynnol o 550 o oedolion yng Nghymru a gynhaliwyd gan Gyngor Diwydiant Wyau Prydain ym mis Tachwedd 2023, lle y dywedodd 54% eu bod yn fodlon i becynnau barhau i gael eu labelu'n wyau maes pan fyddai adar yn cael eu cadw dan do dros dro o dan gyngor Milfeddygol y Llywodraeth.

23. Nododd un sefydliad aelodaeth, yn ystod achosion blaenorol o ffliw adar, mai ychydig iawn o ymholiadau a gafodd gan ddefnyddwyr ac na chafodd unrhyw gwynion o gwbl, gyda defnyddwyr yn deall y sefyllfa, ar y cyfan. Nododd tri ymatebydd fod rhywfaint o ddryswch ymhlith defnyddwyr pan gafodd wyau maes Cymreig eu hisraddio i wyau ysgubor, gyda statws ‘Ysgubor’ wedi'i brintio mewn inc ar becynnau wyau maes.

24. Nododd eraill y byddai system wahanol yng Nghymru yn anfanteisiol i ddefnyddwyr ac yn eu drysu, gan effeithio ar y cyflenwad o wyddau, cosbi cynhyrchwyr yn annheg ac ychwanegu cymhlethdodau gweinyddol i ganolfannau pacio.

**Cwestiwn 4: Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid lliniaru'r risg o ddryswch?**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | 14 | 60% |
| Nac oes | 9 | 40% |

25. Rhoddodd 14 o'r ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid lliniaru'r risg o ddryswch.

26. Cyfeiriodd 10 ymatebydd yn benodol at yr angen i sicrhau bod gwybodaeth glir a thryloyw ar gael yn y man gwerthu er mwyn i ddefnyddwyr wneud penderfyniad hyddysg, gyda thri yn awgrymu y dylai fod deunydd labelu ychwanegol ar focsys a saith yn awgrymu y dylai manwerthwyr ddefnyddio arwyddion yn y siop neu ar-lein, megis deunyddiau esboniadol a negeseuon ar ymyl y silff. Gallai pob un o'r mesurau hyn esbonio i ddefnyddwyr fod cynhyrchwyr wedi gweithredu o dan gyfarwyddyd y Prif Swyddog Milfeddygol er mwyn diogelu lles yr haid genedlaethol.

27. Cyflwynodd dwy elusen lles anifeiliaid sylwadau penodol ar labeli neu wybodaeth dryloyw er mwyn i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau hyddysg. Nododd un y dylai dileu'r terfyn amser o 16 wythnos fod yn fesur dros dro gyda chwmpas a hyd gorchymyn cadw dan do yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chafwyd awgrymiadau i wella amodau ieir sy'n ddarostyngedig i orchmynion cadw dan do. Awgrymodd yr elusen arall a nododd ei bod yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig, gyfnod penodol yn dilyn y newid deddfwriaethol, o chwe mis o leiaf, pan fyddai deunydd labelu ychwanegol yn esbonio'r newidiadau a wnaed. At hynny, deunyddiau esboniadol mewn manwerthwyr yn y man gwerthu a labeli sticer wedi'u hychwanegu at becynnau wyau pe bai amodau cadw dan do gorfodol yn cael eu rhoi ar waith gyda'r cyfnod y byddai adar yn cael eu cadw dan do yn cael ei nodi. Nododd yr elusen y byddai hyn yn fwy costeffeithiol, drwy beidio â newid y bocs wyau yn gyfan gwbl a rhoi stamp ar yr wyau eu hunain yn ystod y broses gynhyrchu, gan sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau cynhyrchwyr a chyflenwyr a hysbysu defnyddwyr ar yr un pryd.

28. Roedd awgrymiadau eraill gan ymatebwyr yn cynnwys defnyddio gwefannau'r llywodraeth a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyfeiriwyd deirgwaith at y cyhoeddusrwydd a roddwyd i fesurau cadw dan do gorfodol yn y cyfryngau yn y gorffennol, gydag ymatebwyr yn nodi bod rhaglenni megis Country File yn ddefnyddiol. Nodwyd bod cyhoeddusrwydd cenedlaethol yn bwysig yn ystod cyfnod rhanddirymu ac, yn arbennig, ar ei ôl.

**Cwestiwn 5: I ba raddau y byddai'n effeithio arnoch pe na fyddai diwygio'r terfyn amser o 16 wythnos ar y rhanddirymiad labelu yn cael ei fabwysiadu o fewn deddfwriaeth ym mhob un o wledydd Prydain Fawr (Cymru, Lloegr, yr Alban)? A allwch ddisgrifio eich gweithrediadau ac i ba raddau y maent yn digwydd naill ai'n gyfan gwbl yng Nghymru neu ar draws dwy neu fwy o wledydd Prydain?**

29. Cafwyd 26 o ymatebion gydag atebion manwl iawn ar effaith peidio â mabwysiadu'r un ddeddfwriaeth â'r gwledydd datganoledig eraill. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gyson natur gymhleth prosesau cynhyrchu wyau a chadwyni cyflenwi ymhlith y tair gwlad ddatganoledig a Lloegr, gan nodi y byddai'n amhosibl eu gwahanu. Nododd chwe chynhyrchydd wyau yn benodol fod eu hwyau yn cael eu gwerthu i dai pacio yn Lloegr.

30. Disgrifiodd ymatebwyr a gyfeiriodd at yr anawsterau y byddai tai pacio yn eu hwynebu pe na bai polisi Cymru yn gyson â gweddill y DU, weithrediad cymhleth a chostus iawn a allai fod yn agored i gamgymeriadau, y posibilrwydd y byddai system ddwy haen yn cael ei chreu gydag wyau Cymreig yn cael eu graddio a'u pacio ar wahân er bod ganddynt yr un system gynhyrchu â chymheiriaid ym Mhrydain Fawr (a allai ddrysu defnyddwyr ymhellach), a risg y gallai cwsmeriaid megis manwerthwyr ddewis peidio â chael wyau o ffermydd yng Nghymru.

31. Nododd un manwerthwr ynghyd ag ymatebydd arall fod tai pacio wedi'u lleoli yn Lloegr yn bennaf, gan gaffael wyau o bob rhan o'r DU. Felly, ni fyddai'n bosibl gwahanu'r gadwyn gyflenwi ar sail lleoliad ac, er mwyn gwneud hynny, byddai angen i gadwyn gyflenwi ar wahân newydd gyflenwi siopau yng Nghymru gyda phrosesau labelu gwahanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gan ychwanegu at y cymhlethdod a chostau.


32. Gwnaeth 15 o'r ymatebwyr sylwadau eraill ar anfanteision y byddai cynhyrchwyr a phacwyr wyau yng Nghymru yn eu hwynebu, yn bennaf mewn perthynas â risgiau ariannol i fusnesau a'r ffaith y byddai busnesau yng Nghymru o dan anfantais fasnachol.

33. Gwnaeth dau ymatebydd sylwadau fel defnyddwyr, gyda'r naill yn nodi na fyddai'r newidiadau yn cael unrhyw effaith arno a'r llall yn nodi bod diffyg hyder yn y farchnad wyau. Cafwyd sylwadau eraill ar yr effaith ar ddefnyddwyr pe na bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith a phe bai polisi Cymru yn wahanol i'r polisi yng ngweddill y DU, megis tarfu posibl ar y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys costau uwch a phrinder wyau (a chynhyrchion sy'n cynnwys wyau).

34. Nododd sylwadau ar y diwydiant wyau yng Nghymru, pe na bai'r newidiadau yn cael eu mabwysiadu, y byddai hyn yn rhoi Cymru o dan anfantais gystadleuol ym marchnad y DU ac Ewrop.

35. Nodwyd y ganran fawr o gynhyrchwyr wyau yng Nghymru sy'n gweithredu o dan gynllun 'Assured' yr RSPCA a safonau 'Lion Quality', gyda'r cynlluniau hyn yn pennu safonau uwch ar gyfer diogelwch bwyd a lles anifeiliaid nag sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth y DU neu ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir. Lleisiwyd pryder ynghylch y gost ariannol ychwanegol a allai godi o wahaniaethau polisi yn y DU, a allai effeithio ar gynhyrchwyr sy'n buddsoddi mewn busnesau cynhyrchu wyau maes ac, yn ei dro, ar broffidioldeb ac ymarferoldeb cynnal safonau cynhyrchu uwch.

**Cwestiwn 6: Beth fyddai'r ffordd orau o hysbysu pobl am newid i arferion labelu wyau maes?**




36. Dewisodd 35 o'r ymatebwyr un o'r opsiynau uchod, gyda'r mwyafrif, sef 66% (23), yn nodi mai hysbysebu fyddai'r ffordd orau o hysbysu pobl am newid i labeli wyau maes. Dewisodd 51% (18) hysbysiadau gwefan sy'n ymddangos wrth ddewis y cynnyrch i'w 'Ychwanegu i'r Fasged' wrth siopa ar-lein a dewisodd 31% (10) hysbysiadau baner Gwefan neu AP ar dudalen y cynnyrch wrth siopa ar-lein.

37. Roedd sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd yn adleisio awgrymiadau blaenorol mai'r ffordd orau o hysbysu pobl am y newid fyddai yn y man gwerthu, naill ai ar ymyl y silff neu mewn man perthnasol yn y system archebu ar-lein.

38. Nododd un manwerthwr, pe bai wyau Cymreig yn parhau i gael eu rhoi mewn bocsys fel wyau maes heb unrhyw newidiadau i labeli fel mewn blynyddoedd blaenorol, na fyddai angen hysbysu defnyddwyr am y newidiadau. Fodd bynnag, nododd sefydliad manwerthu arall, pe bai elfennau ymarferol, y byddai angen i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol ohonynt drwy fanwerthwyr, y gallent ddefnyddio eu sianeli presennol i gyfleu'r neges hon. Ar y pryd

gwnaethant nodi, ymhlith sylwadau eraill, mai diweddariad neu hysbysiad drwy'r Llywodraeth fyddai'r ffordd fwyaf priodol o hysbysu pobl.

39. Roedd un o Gyrff Masnach y Sector o'r farn y byddai ei wefan ei hun yn bwynt cyfeirio addas i ddefnyddwyr am ei bod yn ymdrin â phob cynhyrchydd yn genedlaethol ac yn rhoi canllawiau manwl ar Ffliw Adar eisoes. Mae'n nodi bod manwerthwyr wedi cyfeirio defnyddwyr at y wefan hon ac yn credu ei bod yn briodol pe bai DEFRA a'r Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd yn cyfeirio ymholiadau ar y wefan hon.

40. Ailddatganodd elusen lles anifeiliaid ei hateb blaenorol, y dylid gosod deunydd labelu ychwanegol ar gartonau er mwyn hysbysu defnyddwyr am y newid yn y gyfraith am o leiaf chwe mis, gyda deunyddiau esboniadol yn cael eu dangos ar silffoedd perthnasol mewn unedau manwerthu a labeli glynu ychwanegol ar becynwaith wyau yn parhau i fod yn orfodol pan roddir mesurau cadw dan do gorfodol ar waith.

**Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar hysbysu'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb?**

41. Rhoddodd naw ymatebydd awgrymiadau ychwanegol. Gwnaeth dau sylwadau ar ddefnyddio cyhoeddusrwydd i'w gyhoeddi neu ei esbonio ar y Teledu neu'r Radio neu yn y Wasg pan fydd y rheoliad yn newid, gan gynnwys cyfweliadau â chynhyrchwyr wyau a manwerthwyr er mwyn esbonio pam mae angen y newid, pam mae'n cael ei wneud, a'i fod yn cael ei wneud dan gyfarwyddyd Prif Swyddog Milfeddygol y Llywodraeth er mwyn diogelu iechyd a lles yr haid genedlaethol. Ystyriwyd bod y pwyntiau hyn ynglŷn â dosbarthiad ac amodau'r cyfnod cadw dan do gorfodol yn neges bwysig i'w chyfleu mewn modd cyson, clir a chryno er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr.

42. Nododd un ymateb fod negeseuon gan y llywodraeth wedi'u hategu gan ddeunyddiau Manwerthwyr yn y siop ac ar-lein, yn strategaeth effeithiol ac awgrymodd un arall y dylid parhau i ddefnyddio rhwydweithiau rhanddeiliaid sy'n bodoli eisoes.

43. Roedd un o'r farn nad oedd angen i ymdrechion fod yn gostus iawn, am fod statws marchnata wyau yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth uchel ym mywydau pobl.

**Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newid deddfwriaethol, os o gwbl?**

44. Cafwyd sylwadau gan chwarter yr ymatebwyr, gyda dau o bob tri o'r rhain yn manteisio ar y cyfle i ailddatgan eu cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth arfaethedig a nodi y dylai Cymru fod yn gyson â gweddill y DU, gan alw am i ddeddfwriaeth fod ar waith cyn i'r feirws Ffliw Adar daro eto.

45. Cyfeiriodd rai at oblygiadau mesurau cadw dan do gorfodol gan nodi bod y ffaith na ellir nodi na rhagfynegi hyd y mesurau yn golygu bod y mwyafrif o'r risg sy'n gysylltiedig â cholli statws maes ar ôl y cyfnod presennol o 16 wythnos ddod i ben yn cael ei ysgwyddo gan gynhyrchwyr wyau y byddai'r mesurau yn cael effaith sylweddol ar eu proffidioldeb a'u hyfywedd. Byddai'r newid arfaethedig yn diogelu cynhyrchwyr ac yn rhoi mwy o hyder iddynt.

46. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno y dylai ieir sydd wedi'u cadw dan do gael eu dosbarthu'n rhai maes o hyd a'u gwerthu fel y cyfryw, neu y byddai hyn yn camarwain defnyddwyr. Roedd ymatebydd arall o'r farn, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, na fyddai gan y cyhoedd unrhyw ddiddordeb yn y mater, mewn gwirionedd.

47. Pwysleisiodd ymatebwyr yr effaith ehangach ar y gadwyn cyflenwi bwyd gan gynnwys yr effaith ar gynhyrchwyr wyau ac, yn y pen draw, ddefnyddwyr, gan nodi bod canran fawr o wyau a werthir ledled y DU yn dod o Gymru, gyda thua 4.5 miliwn o ieir yn cael eu cadw ar gyfer cynhyrchu wyau yng Nghymru a'r mwyafrif helaeth ohonynt yn ieir maes. Cyfeiriodd un at y posibilrwydd y byddai manwerthwyr yn chwilio am gyflenwad amgen o wyau rywle arall yn y DU neu'r UE er mwyn osgoi gorfod newid labeli a allai ddod yn arfer hirdymor.

48. Roedd un elusen lles anifeiliaid o'r farn y byddai dileu'r terfyn amser o 16 wythnos yn gostwng safonau yn sylweddol pe gallai ieir sydd wedi cael eu cadw dan do gael eu marchnata fel rhai ‘maes’ o hyd. Fodd bynnag, mae Ffliw Adar yn rhoi cyfiawnhad, am resymau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, dros gadw ieir dan do am fwy na 16 wythnos o dan yr amgylchiadau presennol, ond dim ond pan fydd yr amgylchiadau yn parhau i fod yn eithriadol y dylai hyn ddigwydd. Lleisiwyd pryder y byddai'r sefyllfa a welwyd ar ddechrau 2022 ac yn 2023 yn codi eto lle y diflannodd wyau maes o silffoedd siopau ac y cymerwyd eu lle gan wyau cyffredin oherwydd y terfyn amser o 16 wythnos. Gan nodi bod yn well gan ddefnyddwyr wyau maes o'r DU, y gallai roi sicrwydd, drwy gynlluniau penodol, fod yr adar wedi'u cadw i safonau lles uchel a hyd yn oed pan gânt eu cadw dan do, eu bod yn cael eu cyfoethogi y tu hwnt i'r safonau gofynnol ar gyfer ieir maes.

49. Nododd dwy elusen lles anifeiliaid y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effeithiau negyddol sylweddol ar les anifeiliaid a hyder defnyddwyr mewn cynnyrch maes pe bai'r labeli yn creu'r argraff bod safonau lles maes yn cael eu bodloni. Byddai hyn yn arwain at golli ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr sy'n ymwybodol o les anifeiliaid ac sy'n dibynnu ar labeli bwyd er mwyn gwneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth wrth brynu cynnyrch a gallai hefyd fod yn ddatgymhelliant i ffermwyr a chyflenwyr gydymffurfio â safonau lles. Gan gyfeirio at ei ymchwil ei hun, nododd un elusen nad oedd yr un mor sicr ynghylch safonau uchel yn y DU. Gan nodi bod llai na 3% o ffermydd yn y

DU wedi cael eu harchwilio gan reoleiddwyr cyfrifol rhwng 2018-2021 gydag achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith lles anifeiliaid yn cael eu nodi mewn un o bob tri archwiliad.

## Cig dofednod

### Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gael gwared ar y terfyn amser o 12 wythnos ar y cyfnod rhanddirymu?

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 27 | 84% |
| **Anghytuno** | 4 | 13% |
| **Ddim yn gwybod** | 1 | 3% |

50. O'r 32 o ymatebion a gafwyd, roedd 84% yn cytuno y dylid dileu'r terfyn amser o 12 wythnos ar y cyfnod rhanddirymu yng Nghymru ar gyfer cig dofednod maes ac roedd 13% yn anghytuno.

51. O'r chwe ymatebydd a roddodd sylwadau, cyfeiriodd un at ddefnyddwyr yn cael eu hysbysu yn y man gwerthu fod yr adar wedi'u cadw dan do er mwyn cydymffurfio â rheolaethau swyddogol. Nododd dau yr hoffent weld y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cyd-fynd â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig (gan dynnu sylw at y ffaith bod llawer o fusnesau cig dofednod yn gweithredu ar draws y ffiniau hyn) a chysondeb â'r sector wyau maes o ran dileu'r terfyn amser ar y cyfnod rhanddirymu. Nododd dau arall y byddai'r newidiadau arfaethedig yn helpu i ddiogelu'r sector dofednod a chynnig sefydlogrwydd iddo.

52. Cymysg fu ymateb unigolion a sefydliadau elusennol anifeiliaid gyda rhai yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r terfyn amser o 12 wythnos ar y cyfnod rhanddirymu a phedwar ymatebydd o'r grwpiau hyn yn anghytuno. Fodd bynnag, roedd pob un o'r sefydliadau aelodaeth a chyrff masnach y sector a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn croesawu'r newid arfaethedig.

53. Nododd dau ymatebydd na fyddai'r newidiadau yn cael fawr ddim effaith am fod y rhan fwyaf o ddofednod yn cael eu lladd cyn y terfyn amser o 12 wythnos. Ar y llaw arall, y sector dofednod tymhorol yw'r un lle mae adar maes yn aml i'w cael ar y ddaear drwy gydol yr haf a'r hydref am gyfnod llawer hwy na 12 wythnos. Nododd un sefydliad aelodaeth, gan gyfeirio at dystiolaeth sy'n dangos y gall amrywiannau newydd o'r feirws Ffliw Adar oroesi mewn tymereddau uwch, y gallai dileu'r cyfnod rhanddirymu o 12 wythnos hefyd helpu mewn achosion posibl o Ffliw Adar a allai godi yn yr haf a'r hydref yn y dyfodol. Gan nodi hefyd y byddai'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod y strategaeth Rheoli Ffliw Adar yn cyd-fynd â rheoliadau Marchnata.

54. Nodwyd yr effaith ariannol a'r posibilrwydd o golli incwm ar gyfer cynhyrchwyr dofednod maes petaent yn ysgwyddo'r risg o golli eu statws maes ar ôl y cyfnod presennol o 12 wythnos a'u bod yn dibynnu ar ewyllys da cwsmeriaid i gynnal eu premiwm maes. Mae hyn er gwaethaf y gwahaniaeth bach mewn costau cynhyrchu rhwng systemau maes masnachol nodweddiadol yn ystod mesurau cadw dan do dros dro a'r rhai â mynediad maes, am fod cadw adar dan do yn fwy llafurddwys.

**Cwestiwn 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai effaith y diwygiad arfaethedig hwn i Reoliad 543/2008 (marchnata dofednod) ddrysu neu gamarwain defnyddwyr?**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 9 | 31% |
| **Anghytuno** | 15 | 52% |
| **Ddim yn gwybod** | 5 | 17% |

55. O'r 29 o ymatebion a gafwyd, roedd 31% o'r farn y gallai'r newidiadau arfaethedig ddrysu defnyddwyr ond roedd 52% o'r farn na fyddent yn gwneud hynny.

56. Cafwyd naw sylw. Roedd dau o'r rhain o'r farn y gallai'r diwygiad arfaethedig ddrysu defnyddwyr a nododd pedwar y dylai defnyddwyr gael eu hysbysu yn y man gwerthu megis drwy labeli neu ddeunyddiau a fyddai'n esbonio goblygiadau ariannol y sefyllfa i ddefnyddwyr a'r goblygiadau o ran lles.

57. Nid oedd tri ymatebydd o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn drysu defnyddwyr, a hynny'n seiliedig ar y ffaith nad oedd unrhyw dystiolaeth o ddryswch neu o brofiadau ac achosion blaenorol o Ffliw Adar.

**Cwestiwn 11: Os ydych yn credu y gallai'r diwygiad hwn i Reoliad Dofednod 543/2008 (marchnata dofednod) ddrysu neu gamarwain defnyddwyr, a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid lliniaru unrhyw risgiau canfyddedig?**

58. Cyflwynodd 14 o'r ymatebwyr sylwadau. Awgrymodd un na ddylid newid y rheoliad ac awgrymodd un arall y dylid sicrhau cysondeb â Phrydain Fawr. Ailddatganodd tri eu barn na fyddai unrhyw ddryswch pe bai wyau yn parhau i gael eu labelu'n wyau maes.

59. Esboniodd un sefydliad aelodaeth, o dan y rheoliadau marchnata cig dofednod presennol, mai ychydig o newidiadau sydd wedi'u gwneud i labeli ar gyfer defnyddwyr. Y rheswm dros hyn yw bod y cyfnod rhanddirymu o 12

wythnos yn cael ei roi ar waith ‘fesul haid’ a bod gan y rhan fwyaf o systemau cynhyrchu gylch haid o lai na 12 wythnos.

60. Gwnaeth saith ymatebydd sylwadau ar labeli, gan gynnwys hysbysu defnyddwyr yn y man gwerthu am yr hyn sydd wedi'i wneud a pham. Cyflwynodd dwy elusen lles anifeiliaid sylwadau penodol ar labeli neu wybodaeth dryloyw er mwyn i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau hyddysg. Nododd un y dylai dileu'r terfyn amser o 12 wythnos fod yn fesur dros dro gyda chwmpas a hyd gorchymyn cadw dan do yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chafwyd awgrymiadau i wella amodau ieir sy'n ddarostyngedig i orchmynion cadw dan do. Awgrymodd yr elusen arall a nododd ei bod yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig, gyfnod penodol yn dilyn y newid deddfwriaethol, o chwe mis o leiaf, pan fyddai deunydd labelu ychwanegol yn esbonio'r newidiadau a wnaed. At hynny, deunyddiau esboniadol mewn manwerthwyr yn y man gwerthu a labeli sticer wedi'u hychwanegu at becynwaith cig dofednod pe bai amodau cadw dan do gorfodol yn cael eu rhoi ar waith gyda'r cyfnod y byddai adar yn cael eu cadw dan do yn cael ei nodi. Nodd yr Elusen y byddai hyn yn fwy costeffeithiol, drwy beidio â newid pecynwaith cynhyrchion cig dofednod yn gyfan gwbl yn ystod y broses gynhyrchu, gan sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau cynhyrchwyr a chyflenwyr cig cyw iâr a hysbysu defnyddwyr ar yr un pryd.

**Cwestiwn 12: I ba raddau y byddai'n effeithio arnoch pe na bai diwygio'r terfyn amser o 12 wythnos ar y rhanddirymiad labelu yn cael ei fabwysiadu o fewn deddfwriaeth ym mhob un o wledydd Prydain Fawr (Cymru, Lloegr, yr Alban)? A allwch ddisgrifio eich gweithrediadau ac i ba raddau y maent yn digwydd naill ai'n gyfan gwbl yng Nghymru neu ar draws dwy neu fwy o wledydd Prydain?**


61. Cafwyd 11 o ymatebion. Nododd dau, fel defnyddiwr, na fyddent yn pryderu ynghylch unrhyw effaith nac yn credu y byddai unrhyw effaith arnynt a nododd un, pe na bai Cymru yn mabwysiadu'r un diwygiad â gweddill gwledydd Prydain Fawr, y byddai hyn yn peri dryswch diangen.

62. Anogodd dau ymatebydd yn gryf y dylid sicrhau cysondeb â'r gwledydd datganoledig er mwyn sicrhau na fyddai'r diwygiad yn effeithio ar fasnach a thynnodd pump sylw at natur gymhleth gweithrediadau cig dofednod a'r gadwyn gyflenwi yn y tair gwlad ddatganoledig. Rhoddwyd manylion am gyfleusterau ledled y Deyrnas Unedig megis ffermydd magu a dodwy bridwyr brwyliaid, ffermydd magu tyrcwn, deorfeydd, melinau porthiant a lladd-dai, yn ogystal â symudiadau dilynol dofednod a chig dofednod ar draws ffiniau. Yn arbennig, rhwng Cymru a Lloegr yn seiliedig ar leoliad lladd-dai gyda dau ymatebydd yn esbonio bod eu cywion bwyta yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru ond eu prosesu yn Lloegr gyda llawer yn dychwelyd i Gymru ar gyfer masnach fanwerthu.

63. Nododd pedwar ymatebydd yr effaith y byddai peidio â mabwysiadu'r diwygiad yn ei chael ar y gallu i farchnata adar fel rhai maes, a allai olygu nad ydynt yn fasnachol hyfyw drwy gyfyngu ar y marchnadoedd lle y gellir eu gwerthu. Gan nodi y gallai hyn hefyd arwain at drefniadau cytundebol gwahanol â chyflenwyr ac, felly, gynigion gwahanol i ddefnyddwyr. Gallai hyn oll arwain at darfu a phwysau ariannol ychwanegol ar y gadwyn gyflenwi cig dofednod.

64. Nododd dau fod y cyfnod presennol o 12 wythnos wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch pryd i roi gorchmynion cadw dan do ar waith a hyd y gorchmynion hynny, gan awgrymu bod cyhoeddi gorchmynion cadw dan do yn gynnar yn ystod achosion yn hanfodol i reoli clefydau yn effeithiol ac y dylent barhau i fod ar waith cyhyd ag sydd ei angen i ddiogelu heidiau.

**Cwestiwn 13: Beth fyddai'r ffordd orau o hysbysu pobl am newid i arferion labelu dofednod?**




65. Dewisodd 34 o'r ymatebwyr o blith yr opsiynau uchod. Nododd y mwyafrif 62% (21) mai Hysbysebu fyddai'r ffordd orau o hysbysu pobl am newid i labeli cig dofednod. Dewisodd 56% (19) Hysbysiadau gwefan sy'n ymddangos wrth ddewis y cynnyrch i'w 'Ychwanegu i'r Fasged' wrth siopa ar-lein a nododd 35% (12) Hysbysiadau baner Gwefan neu AP ar dudalen y cynnyrch wrth siopa ar-lein.

66. Nododd saith ymatebydd (21%) mai'r ffordd orau o hysbysu pobl fyddai drwy ddiweddariad neu gyfathrebu gan y llywodraeth, gyda sylw y dylai unrhyw newidiadau i bolisi neu ddeddfwriaeth gael eu cyfleu drwy sianeli swyddogol llywodraethau.

67. Roedd sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd yn adleisio pwyntiau blaenorol mai'r ffordd orau o hysbysu pobl am y newid fyddai yn y man gwerthu, naill ai drwy arwyddion yn y man gwerthu megis negeseuon ar ymyl y silff, labeli ar

becynwaith neu mewn man perthnasol yn y system archebu ar-lein. Roedd dau ymatebydd o'r farn na fyddai angen newid arferion labelu, yn rhannol am na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar statws y rhan fwyaf o ddofednod maes.

68. Er i elusen lles anifeiliaid ailddatgan ei hateb blaenorol, y dylid gosod deunydd labelu ychwanegol ar becynwaith cig cyw iâr er mwyn hysbysu defnyddwyr am y newid yn y gyfraith am o leiaf chwe mis, gyda deunyddiau esboniadol yn cael eu dangos ar silffoedd perthnasol mewn manwerthwyr a labeli glynu ychwanegol ar becynwaith cig cyw iâr yn parhau i fod yn orfodol pan roddir mesurau cadw dan do gorfodol ar waith.

**Cwestiwn 14: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar hysbysu'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb?**

69. Rhoddodd pum ymatebydd awgrymiadau ychwanegol. Ymhlith y negeseuon allweddol yr ystyriwyd ei bod yn bwysig eu cyfleu i ddefnyddwyr roedd esbonio pam mae angen y newid, pwysleisio bod gorchmynion cadw dan do yn fesurau dros dro ac wedi'u mandadu gan Brif Swyddog Milfeddygol y Llywodraeth er mwyn diogelu iechyd a lles yr haid genedlaethol, nodi'r amodau y gellir gosod cyfnod cadw dan do gorfodol ac egluro'r gofynion ar gyfer dosbarthu cynnyrch maes. Awgrymwyd, er mwyn cyrraedd defnyddwyr yn effeithiol, y dylai'r neges fod yn gyson, yn glir ac yn gryno, ond wedi'i chyflwyno drwy sawl sianel a fformat, megis cyfweliadau â chynhyrchwyr a manwerthwyr.

**Cwestiwn 15: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newid deddfwriaethol, os o gwbl?**

70. Cafwyd sylwadau gan saith ymatebydd. Gofynnodd pedwar am gysondeb â'r gwledydd datganoledig, Lloegr a'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â chysondeb rhwng deddfwriaeth ynglŷn ag wyau a deddfwriaeth ynglŷn â chig dofednod, gan nodi y byddai peidio â chysoni'r ddeddfwriaeth yn peri mwy o ddryswch i ddefnyddwyr a rhoi cynhyrchwyr a phroseswyr o dan anfantais.


71. Nododd un sefydliad aelodaeth a oedd o blaid dileu'r cyfnod rhanddirymu o 12 wythnos nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n caniatáu i gynnyrch gael ei labelu'n gynnyrch maes drwy gydol y cyfnod llawn o 12 wythnos pan fydd mesurau cadw dan do gorfodol mewn grym, wedi effeithio ar hyder defnyddwyr. Mae hyn yn dal i fod yn wir er bod llawer o gynhyrchwyr cig dofednod maes yn magu adar a gaiff eu prosesu cyn y terfyn amser o 12 wythnos, sy'n golygu bod yr adar hyn yn treulio eu cylchred bywyd gyfan dan do.

72. Nododd un ymatebydd y gallai dileu'r cyfnod rhanddirymu o 12 wythnos hefyd fod yn fuddiol pe bai achosion o glefydau yn y dyfodol, yn enwedig i adar gan fod tyrcwn maes tymhorol yn aml yn cael eu magu am fwy na 12 wythnos. Mae hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd effaith bosibl amrywiannau newydd o'r feirws Ffliw Adar sy'n goroesi mewn tymereddau uwch a newidiadau i batrymau mudo adar gwyllt.

73. Nid oedd tri ymatebydd yn cytuno y dylai ieir sydd wedi'u cadw dan do gael eu dosbarthu'n rhai maes o hyd a'u gwerthu fel y cyfryw, gan argymell y dylid defnyddio labeli clir i osgoi camarwain defnyddwyr. Roedd un elusen lles anifeiliaid o'r farn y byddai dileu'r terfyn amser o 12 wythnos yn gostwng safonau yn sylweddol pe gallai adar sydd wedi cael eu cadw dan do gael eu marchnata fel rhai ‘maes’ o hyd. Fodd bynnag, mae Ffliw Adar yn rhoi cyfiawnhad, am resymau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, dros gadw ieir dan do am fwy na 16 wythnos o dan yr amgylchiadau presnnol, ond dim ond pan fydd yr amgylchiadau yn parhau i fod yn eithriadol y dylai hyn ddigwydd. Lleisiwyd pryder y byddai'r sefyllfa a welwyd ar ddechrau 2022 ac yn 2023 yn codi eto lle y diflannodd wyau maes o silffoedd siopau ac y cymerwyd eu lle gan wyau cyffredin oherwydd y terfyn amser o 16 wythnos. Gan nodi bod yn well gan ddefnyddwyr wyau maes o'r DU, y gallai roi sicrwydd, drwy gynlluniau penodol, fod yr adar wedi'u cadw i safonau lles uchel a hyd yn oed pan gânt eu cadw dan do, eu bod yn cael eu cyfoethogi y tu hwnt i'r safonau gofynnol ar gyfer ieir maes.

74. Nododd dwy elusen lles anifeiliaid y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effeithiau negyddol sylweddol ar les anifeiliaid a hyder defnyddwyr mewn cynnyrch maes pe bai'r labeli yn creu'r argraff bod safonau lles maes yn cael eu bodloni. Byddai hyn yn arwain at golli ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr sy'n ymwybodol o les anifeiliaid ac sy'n dibynnu ar labeli bwyd er mwyn gwneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth wrth brynu cynnyrch a gallai hefyd fod yn ddatgymhelliant i ffermwyr a chyflenwyr gydymffurfio â safonau lles. Gan gyfeirio at ei ymchwil ei hun, nododd un elusen nad oedd yr un mor sicr ynghylch safonau uchel yn y DU. Gan nodi bod llai na 3% o ffermydd yn y DU wedi cael eu harchwilio gan reoleiddwyr cyfrifol rhwng 2018-2021 gydag achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith lles anifeiliaid yn cael eu nodi mewn un o bob tri archwiliad.


**Cwestiwn 19: Dywedwch wrthym fel pwy rydych chi'n ymateb, gan ddewis o'r canlynol.**




75. Gallai 40 o'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn o'r rhestr uchod pan ofynnwyd iddynt nodi fel pwy roeddent yn ymateb. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn Gynhyrchwyr wyau 40% (16) ac yn Gyrff masnach y sector neu'n Sefydliadau Aelodaeth 20% (8).

76. Disgrifiodd ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn 'arall' eu hunain fel Elusen Lles Anifeiliaid, Grŵp Prynu, Sefydliad Elusennol, Swyddog Ymchwil Prosiect, Milfeddyg Dofednod a Busnes Wyau (gan gynnwys Cynhyrchwyr a Thai Pacio ledled y DU).

**Cwestiwn 21: Dewiswch gwmpas daearyddol eich sefydliad neu'r ardal y mae eich ymateb yn gysylltiedig â hi o'r canlynol (ticiwch cymaint ag sy'n berthnasol.**




77. Rhoddodd 38 o'r ymatebwyr atebion. Nododd y mwyafrif 90% (34) o'r ymatebwyr fod eu sefydliadau neu eu hardal ymateb yng Nghymru a nododd 42% (16) o'r ymatebwyr fod eu sefydliadau neu eu hardal ymateb yn Lloegr.

## Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Dim ond i Gymru y mae’r ymgynghoriad hwn yn gymwys. Mae cynigion tebyg yn cael eu datblygu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagor o fanylion maes o law a bydd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid.

## Atodiad A: Arolygon neu Ymchwil Annibynnol

Deunydd y cyfeiriwyd ato yn ystod yr ymgynghoriad.


Arolwg Annibynnol Cyngor Diwydiant Wyau Prydain - Obsurvant, Tachwedd 2023

Compassion in world farming: Farm Animals – Egg laying Hens

Conservative Animal Welfare Foundation – Mandatory Labelling, Tachwedd 2020

The Animal Law Foundation : The Enforcement Problem

YouGov – What Do Brits Think of UK Farming Practices 2020

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Food and You 2:  Wave 6: Chapter 2 Concerns about food

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – UK Public’s Interests, Needs and Concerns Around Food